



Eich cyf/Your ref P-05-984
Ein cyf/Our ref JJ/02034/20

Janet Finch-Saunders MS
Aelod Seneddol
Ty Hywel
Cae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@gov.wales

17 Awst 2020

Annwyl Janet Finch-Saunders AS,

Diolch am eich llythyr dilynol ar 5 Awst ynglŷn â Deiseb P-05-984: 'Stopiwch ymgynghoriadau gwahaniaethol o bell ar gyfer ceisiadau llosgydd yn ystod Pandemig Covid-19', sy'n cynnwys cyflwyniad diweddaraf y deisebydd.

Sylwaf ar gais y deisebydd i ymestyn amserlenni ymgynghori yn ystod y cyfnod cyn-ymgeisio ac hefyd y cam ar ôl gwneud cais cynllunio Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ("DAC").

Nid oes unrhyw bwerau ar gael sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ymestyn y cyfnodau ymgynghori sylfaenol yn ystod y cyfnod cyn-ymgeisio. Mae'r gofynion sylfaenol ymgynghori cyn-ymgeisio wedi bod ar waith ers 2016 ac nid ydynt wedi'u diwygio o ganlyniad i'r pandemig coronafirws. Pe bai ymgeisydd darpar yn cydymffurfio â'r gofynion hynny, nid oes unrhyw reswm cyfreithiol y gellir ystyried bod cais cynllunio DAC yn annilys ar y sail hon.

Mae'r sefyllfa'n wahanol ar ôl i Weinidogion Cymru dderbyn cais cynllunio DAC dilys, pe bai'r ymgeisydd yn cyrraedd y cam hwn. Mae'r gweithdrefnau DAC yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymestyn yr amserlenni sy'n gysylltiedig ag unrhyw ofyniad ymgynghori neu gyflwyno, a bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn arfer y pwerau hynny ar ran Gweinidogion Cymru lle y gwêl yn briodol. Er bod y pŵer i ymestyn amserlenni ymgynghori yn cael ei arfer yn unochrog, nid oes unrhyw beth i atal unigolyn, ymgynghorydd na'r ymgeisydd rhag gwneud cais o'r fath. Gellir gwneud ceisiadau o'r fath yn ysgrifenedig, ynghyd â rhesymu priodol, i dns.wales@planninginspectorate.gov.uk, ar ôl derbyn cais cynllunio DAC dilys.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gwybodaeth sy'n ymwneud â cheisiadau cynllunio DNS arfaethedig a derbyniol wedi'i chynnwys ar y wefan ganlynol: <https://dns.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/>. Os oes gan y deisebydd ddiddordeb mewn ceisiad penodol, mae'r wefan yn cynnwys cyfarwyddiadau sy'n caniatáu i unigolion dderbyn diweddariadau e-bost am y cais, gan gynnwys pan fydd cais yn cael ei gyflwyno, ei dderbyn a phan fydd yr ymgynghoriad yn cychwyn, er mwyn galluogi cyfranogiad yn ystod y cam priodol.

Yr eiddoch yn gywir,



Julie James AS/MS

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government